



06.01.21

Sara Maredudd Jones

Cyswllt Contact

Ffôn Phone

0330 5880 369

Erthygl i'r Wasg Press Release

Gwireddu breuddwydion o ganu gyda Dafydd Iwan

Dim ots os ydych chi rhwng 6 a 96 oed - mae gan bob un ohonom ein harwr cerddorol. Ond os fysech chi'n cael y cyfle i rannu llwyfan gydag unrhyw un, pwy fydddech chi'n ei ddewis?

Dyma'n union sy'n digwydd mewn cyfres newydd ar S4C ym mis Ionawr, **Canu Gyda Fy Arwr**.

Gyda Rhys Meirion wrth y llyw yn teithio i bob cwr o Gymru i wireddu breuddwydion pobl i ganu gyda'u harwyr cerddorol, mae hon yn rhaglen llawn hwyl sy'n sicr o godi calon yn ystod nosweithiau oer y gaeaf.

Yr arwyr fydd yn rhoi gwên ar wynebau eu ffans yn y gyfres yw Elin Fflur, Dafydd Iwan a Shân Cothi ac mae tri pherson gwahanol ym mhob rhaglen yn cael y cyfle i wireddu eu breuddwyd. Cafwyd degau o ymatebion i'r alwad - rhai yn enwebu eu hunain ac eraill yn cael eu henwebu gan ffrindiau neu deulu, fel sypreis llwyr!

Yn yr ail raglen, fydd ymlaen ar S4C ar nos Sul y 10fed o Ionawr, Dafydd Iwan fydd yn gwireddu breuddwydion Dai Jones o Lanelli, Win Jones o Benrhyndeudraeth ac Amala o Gaerdydd wrth iddyn nhw gael y ffrindiau o ganu gyda'u harwr.

Mae Dafydd Iwan yn un o'r artistiaid mwyaf eiconig yng Nghymru sydd wedi bod yn denu cynulleidfaoedd ers degawdau. Ac mae'n wir i ddweud fod ei ganeuon bellach yn rhan ganolog o'n hunaniaeth ni.

Winifred – neu Win i bawb sy'n ei nabod hi yw'r cyntaf yn y rhaglen sy'n canu'r anthem 'Yma O Hyd' gyda Dafydd Iwan, a hynny yn ei pharti pen-blwydd yn 95 oed. Amy, wyres Win, sydd wedi enwebu ei Nain gan ei bod hi wrth ei bodd gyda Dafydd Iwan ac yn berson arbennig i bawb yn y gymuned:

"Mae Nain yn gymeriad...Mae hi mor *confident* o feddwl bod hi'n 95 heddiw. Neith hi siarad efo unrhyw un, mae'n trafailio'r byd fel arfer ond heb fod yn y misoedd diwethaf felly dwi'n meddwl bod o'n neis iddi gael rhywbeth i edrych ymlaen ato."

Gyda'i gwreiddiau yn yr Eidal, mae Win wedi byw yn yng Nghymru ers dros hanner canrif ac mae'n ddiolchgar iawn i'w theulu a'i wyresau sydd wedi'i chadw hi i fynd ers mis Mawrth.

Daeth yr ail enwebiad i ganu gyda Dafydd Iwan o'r ysgol aml-ddiwylliannol, Ysgol Gynradd Gymraeg Hamadryad yng Nghaerdydd, ble mae'r plant wrth eu boddau yn canu'r casgliad o hwiangerddi bytholwyrdd Dafydd Iwan ac Edward Morris Jones, Cwm Rhyd y Rhosyn.



Mae hyd at 30 o ieithoedd gwahanol i'w clywed yn yr ysgol hon, gydag ambell i blentyn yn dysgu Cymraeg fel pumed iaith, ac fel cenedlaethau o blant Cymru, mae caneuon Cwm Rhyd y Rhosyn yn boblogaidd iawn ymysg plant yr ysgol.

Amala, sy'n 6 oed, yw'r disgybl lwcus sydd wedi'i dewis gan yr ysgol i ganu gyda llais adnabyddus y caneuon hyn. Mae hi wrth ei bodd yn canu o gwmpas y tŷ a'r gân y mae hi wedi dewis yw 'Mam Wnaeth Got I Mi'.

Roedd clywed Amala yn canu'n llawn hyder yn brofiad arbennig i'r athrawes, Mrs. Rhian Carbis, sy'n cofio Amala'n cychwyn yn yr ysgol ddwy flynedd yn ôl heb air o Gymraeg:

"Mae heddiw wedi bod yn gymaint o ffrind i fi weld hi'n serennu yma ym mharc Hamadryad."

A'r trydydd sy'n cael y cyfle i ganu gyda Dafydd Iwan yw Dai Jones, gofalwr Parc y Scarlets, Llanelli, ac un o hoelion wyth y clwb.

Ar ôl cynrychioli Llanelli yn y rygbi nol yn y 70au, mae Dai yn parhau i fod yn rhan ganolog o'r Scarlets fel aelod o staff, ac mae'r stadiwm fel ail gartref iddo.

Cafodd ei enwebu gan ei ferch, Angharad, am ei fod bob amser yn canu ac wrth ei fodd gyda chaneuon Dafydd Iwan:

"Mae'n rhan naturiol o rygbi'r Scarlets cael Dafydd Iwan yn chwarae'n rheolaidd yn y stadiwm. Felly mae jyst yn naturiol iawn bod Dafydd Iwan yn arwr iddo fe."

Ac mae'r dref hon a'r clwb rygbi yn agos iawn at galon Dafydd Iwan hefyd:

"Fel bachgen o Frynaman, Llanelli oedd y dref rygbi fawr agosaf. Felly cefnogwr y Scarlets ydw i wedi bod erioed ac yn ddiweddarach, fe ddes i i nabod Ray Gravell. Roedd Ray wrth ei fodd yn canu ac yn dod fyny o'r gynulleidfa fel arfer. A ges i sawl profiad cofiadwy iawn yn canu gydag o."

Y gân y mae Dai wedi dewis yw 'Hawl I Fyw' oherwydd bod y geiriau yn arbennig ac yn ôl Dai, mae hi'n gân sy'n disgrifio popeth sy'n mynd ymlaen yn y byd heddiw gan lwyddo i godi ysbryd pob tro.

Mae Dai a Dafydd yn canu'r gân ym Mharc y Scarlets ac yn y gynulleidfa mae teulu Dai – rhai nad ydi o wedi'u gweld ers misoedd. Ac i'w fab, Christen, roedd yn brofiad bythgofiadwy gwylio'r ddeuawd:

"Beth oedd yn dda oedd gweld ein arwr ni, yn canu gyda'i arwr e."

Canu Gyda Fy Arwr

Nos Sul 10 Ionawr, 8.00

Isdeitlau Cymraeg a Saesneg ar gael

Ar alw: S4C Clic, iPlayer a platfformau eraill

Cynhyrchiad Cwmni Da ar gyfer S4C



06.01.21

Sara Maredudd Jones
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
0330 5880 369

Erthygl i'r Wasg Press Release

Making dreams of singing with Dafydd Iwan come true

It doesn't matter if you're between 6 and 96 - we all have our musical hero. But if you had the chance to share a stage with anyone, who would you choose?

This is exactly what happens in a new series on S4C in January, **Canu Gyda Fy Arwr** (Singing With My Hero).

With Rhys Meirion travelling all over Wales to fulfil people's dreams of singing with their musical heroes, this programme is full of fun that is sure to warm the heart during the cold winter evenings.

The heroes in the series are Elin Fflur, Dafydd Iwan and Shân Cothi and three different people in each programme have the opportunity to fulfil their dream. There were many responses to the call - some nominating themselves and others nominated by friends or family as a complete surprise!

In the second programme, on S4C on Sunday the 10th of January, Dafydd Iwan will fulfill the dreams of Dai Jones from Llanelli, Win Jones from Penrhyndeudraeth and Amala from Cardiff as they get to sing with their hero.

Dafydd Iwan is one of the most iconic artists in Wales who has been attracting audiences for decades. And it's true to say that his songs are now a central part of our identity.

Winifred - or Win to all who know her is the first in the programme who sings the anthem 'Yma O Hyd' with Dafydd Iwan, at her 95th birthday party. Amy, Win's granddaughter, nominated her grandmother as she loves Dafydd Iwan and is a special person to everyone in the community:

"Grandma is a character...She's so confident considering she's 95 today. She'll talk to anyone; she usually travels the world but hasn't been able to in the recent months, so I think it's nice for her to have something to look forward to."

With her roots in Italy, Win has been living in Wales for over half a century and is very grateful to her family and granddaughters who have kept her going since March.

The second nomination to sing with Dafydd Iwan came from the multicultural Welsh language school, Hamadryad Primary School in Cardiff, where the children love to sing the collection of well-known nursery rhymes by Dafydd Iwan and Edward Morris Jones, Cwm Rhyd y Rhosyn.



There are up to 30 different languages to be heard in this school, with some children learning Welsh as a fifth language, and like generations of children in Wales, the songs of Cwm Rhyd y Rhosyn are very popular with the pupils.

Amala, aged 6, is the lucky pupil chosen by the school to sing with the well-known voice of these songs. She loves to sing around the house and the song she has chosen is 'Mam Wnaeth Got I Mi'.

Hearing Amala singing with confidence was a wonderful experience for the teacher, Mrs. Rhian Carbis, who remembers Amala starting school two years ago without a word of Welsh:

"Today has been such a privilege to have seen her star here at Hamadryad park."

And the third to sing with Dafydd Iwan is Dai Jones, caretaker at Parc y Scarlets, Llanelli and a pillar of the club.

Having represented Llanelli in rugby back in the 70s, Dai remains a central part of the Scarlets as a member of staff and the stadium is a second home to him.

He was nominated by his daughter, Angharad, because he's always singing and loves Dafydd Iwan's songs:

"It's a natural part of Scarlets rugby to have Dafydd Iwan playing regularly in the stadium. So, it's only natural that Dafydd Iwan is his hero."

And the town and rugby club are very close to Dafydd Iwan's heart too:

"As a boy from Brynamman, Llanelli was the nearest big rugby town. So, I've always been a Scarlets fan and later came to know Ray Gravell. Ray loved to sing and usually came up from the audience. I had several very memorable experiences singing with him."

The song that Dai has chosen is 'Hawl i Fyw' because the lyrics are very special and according to Dai, it is a song that describes everything going on in the world today but always manages to lift his spirits.

Dai and Dafydd sing the song at Parc y Scarlets and in the audience are Dai's family - some he hasn't seen for months. And for his son, Christen, it was an unforgettable experience watching the duo:

"What was great was seeing our hero, singing with his hero."

Canu Gyda Fy Arwr

Sunday, 10 January, 8.00pm

Welsh and English subtitles available

On demand: S4C Clic, iPlayer and other platforms

A Cwmni Da production for S4C